ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cyfrol 3, Rhifyn 1 Tymor yr Hydref 2006

Tîm Cwricwlwm TGCh

Cylchlythyr TGCh

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA!

Cynnwys:

- Blwyddyn Arolwg! Mae help wrth law!
- Ystafell TG Newydd yn Ysgol Gynradd Pengelli
- Diogelwch ar y Rhyngrwyd!
- Y Diweddaraf am Gynadledda Fideo
- Adnoddau Cymraeg
- Geocaching!
- Y Diweddaraf am Ddysgu TGCh
- Asesu Plant
- Dadansoddi Adolygiad y Cwricwlwm
- Cefnogaeth i Ysgolion Ffocws

Cofiwch:

- Rhif y llinell gymorth: 01792 636900 Desg Wasanaeth ar gyfer ymholiadau technegol
- YGG Bryn Tawe: 01792 560649 Tîm Cwricwlwm TGCh
- Dysgu TGCh: www.learn-ict.org.uk

Blwyddyn Arolwg! Mae help wrth law!

Cefnogaeth i Ysgolion sy'n cael Arolwg

Bob blwyddyn dyrennir amser i bob ysgol ar gyfer cefnogi'r cwricwlwm TGCh. Fodd bynnag, yn ôl y model newydd ar gyfer cefnogi'r cwricwlwm, bydd ysgolion a nodwyd ar gyfer Arolygiad yn derbyn cefnogaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn academaidd y cânt arolwg ynddi.

Mae'r amser ychwanegol yma fel a ganlyn:

- Ysgolion uwchradd: 8 niwrnod
- Ysgolion cynradd, iau, babanod a meithrin: 6 diwrnod
- Ysgolion arbennig ac UCD: 6 diwrnod

Anogir ysgolion i ddefnyddio'r gefnogaeth hon i gynorthwyo gyda chynllunio gweithredu cyn ac ar ôl arolygiad.

Crynodeb o'r gefnogaeth ar gyfer Arolygiadau y tymor hwn

Mae'r model newydd wedi bod ar waith ers mis Medi ac mae ysgolion sy'n wynebu Arolygiad eisoes wedi bod yn defnyddio'r amser ychwanegol yma mewn sawl ffordd. Rhoddodd y broses Hunanwerthuso ac Adolygu a gynhaliwyd gyda phob ysgol ar ddechrau'r tymor ddealltwriaeth glir o'u sefyllfa bresennol mewn perthynas â darparu TGCh, a



"There aren't any icons to click. It's a chalk board."

helpodd i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer targedu cefnogaeth.

Anogwyd ysgolion sydd i gael Arolygiad i ymgymryd â Dadansoddiad Anghenion Staff i nodi'r gefnogaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer unigolion, grwpiau o athrawon, Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu ac i fynd i'r afael â materion hyfforddi staff cyfan. Mae'r Athro/Athrawes Ymgynghorol a neilltuwyd ar eu cyfer wedi bod yn cysylltu â Phenaethiaid a Chydlynwyr TG i lunio Cynlluniau Gweithredu a'u rhoi ar waith i ddiwallu anghenion penodol pob ysgol.

Mae'r gweithgareddau a wnaed hyd yn hyn wedi cynnwys: arweiniad ar Gynlluniau Gwaith, adolygu Polisïau TG/Defnydd Derbyniol ac unrhyw ddogfennaeth arall sy'n berthnasol i TGCh, adolygu meddalwedd/caledwedd a defnydd priodol/dosbarthu adnoddau, siarad â staff am gynllunio effeithiol yn y tymor hir, canolig a byr ar gyfer sgiliau TG, gan gynnwys gweithdrefnau asesu, cymhwyso TGCh trwy ddefnydd trawsgwricwlaidd a gwerthuso/creu portffolios.

Trafodwyd materion trefniadol ac addysgol a chyflwynwyd rhai gwersi enghreifftiol gyda disgyblion ac athrawon yn dysgu ochr yn ochr â'i gilydd. Cyflwynwyd sesiynau ar TGCh yn y Blynyddoedd Cynnar gan ddefnyddio'r amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored, defnydd priodol o'r Rhyngrwyd, e-bostio, animeiddio, defnyddio cyfryngau digidol, Byrddau Gwyn Rhyngweithiol, defnyddio TGCh i gyfansoddi cerddoriaeth a hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r Gwasanaeth a Reolir hefyd, heb anghofio wrth gwrs, benthyca offer… a dim ond y tymor cyntaf yw hwn!!!

Lansio Ystafell TGCh Ysgol Gynradd Pengelli

Dydd Mercher 5 Gorffennaf oedd dathliad agor swyddogol ystafell TGCh Ysgol Gynradd Pengelli. Roedd yn gyfle i ddiolch i bawb a gynorthwyodd wrth sefydlu'r ystafell ac i'r plant rannu'r arfer da a wnaed yn yr ystafell ers ei sefydlu yn yr ysgol.

Mae gan Bengelli hanes gwych o ddatblygu sgiliau cyfrifiadurol a gellir datblygu hyn ymhellach trwy'r mynediad gwell yma i gyfrifiaduron i bob plentyn.

Mae'r ystafell yn cynnwys bwrdd gwyn rhyngweithiol a thri chyfrifiadur ar ddeg wedi'u rhwydweithio sy'n galluogi cyflwyno gwersi wedi'u teilwra i ddatblygu sgiliau. Defnyddir yr ystafell ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd yn ystod sesiynau'r bore yn ogystal â gwaith pwnc yn y prynhawn, er mwyn datblygu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Hoffem ddiolch i'r canlynol:

- Lindsay Harvey am blannu hedyn yr ystafell TGCh;
- Cyngor Cymuned Grovesend am dalu am brydles dair blynedd y cyfrifiaduron;
- Joplings Coaches a Finesse Photography am dalu am y celfi;
- Ricky Holdsworthy o'r Adran TGCh am ei gefnogaeth dechnegol;
- Jan Morgan o'r Adran TGCh am ei chefnogaeth gwricwlaidd;
- Jonathan Haines am ailaddurno'r ystafell;
- Rob Sinclair am gwblhau'r gwaith trydanol;
- Staff ELRS am helpu gydag estheteg yr ystafell.

Roedd y noson lansio'n llwyddiant mawr wrth hyrwyddo'r ystafell ymhlith y gymuned. Rhannodd plant o bob grŵp oed eu gwaith gyda'r gwesteion a wahoddwyd, a oedd yn cynnwys y rheiny a helpodd i sefydlu'r ystafell, Llywodraethwyr a rhieni. Roedd yr arddangosiadau wal yn adlewyrchu cynnydd y sgiliau TGCh a ddatblygwyd o'r Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6.

Cytunodd yr oedolion bod yr ystafell yn darparu cyfle gwych i ddisgyblion yr ysgol a bod angen ychydig wersi arnyn nhw nawr i gadw i fyny â'r plant!!!!

Diogelwch ar y Rhyngrwyd!

Diben y ddolen Diogelwch ar y Rhyngrwyd ar y wefan Dysgu TGCh yw tynnu sylw at faterion diogelwch a darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol i ysgolion, athrawon a rhieni ar sut i ddefnyddio'r Rhyngrwyd a thechnolegau cysylltiedig yn ddiogel.
Nid cyfrifiaduron personol yw'r unig ddull sydd ar gael bellach o fynd ar y Rhyngrwyd. Gall plant fynd ar-lein o gyfrifiaduron personol gartref, tŷ ffrind, yn yr ysgol neu mewn llyfrgell, clwb neu gaffi. Gellir cysylltu llawer o gonsolau gêmau â'r Rhyngrwyd a'u defnyddio ar gyfer sgyrsio a rhyngweithio arall ar-lein. Mae hefyd yn bosib mynd ar y Rhyngrwyd ar ddyfeisiau symudol fel ffonau symudol a dyfeisiau llaw eraill. Mewn geiriau eraill, does dim rhaid i blant fod yng nghwmni oedolion cyfrifol i ddefnyddio'r Rhyngrwyd.
Mae gan ysgolion ddyletswydd gofal i sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o beryglon posib y Rhyngrwyd ac i roi strategaethau iddynt a fydd yn eu helpu i aros yn ddiogel ar-lein. Mae'r ddolen Diogelwch ar y Rhyngrwyd ar y wefan Learn-ict.org.uk yn darparu mynediad i amrywiaeth o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon a rhieni i godi pwnc diogelwch ar y Rhyngrwyd mewn ffordd wybodus ac ymarferol. Mae adnoddau o'r BBC, Grid Club a Young People Safe ar-lein oll yn galw am feddwl CAMPUS!

Y Diweddaraf am Fideo Gynadledda

Yng Nghylchlythyr y Gwanwyn cyhoeddwyd y trefniadau fideo gynadledda i'w defnyddio ar fand eang y Sir.

Mae'r offer, sy'n seiliedig ar y dyluniad a roddwyd ar waith yn Rhwydwaith Fideo Cymru, bellach wedi'u gosod mewn pum ysgol uwchradd i weithredu fel ystafell fideo gynadledda. Mae'n cynnwys sgrîn fawr, camera fideo o ansawdd uchel y gellir ei reoli o bell i ffocysu ar wahanol rannau o'r ystafell a microffonau priodol.

Y gobaith yw y bydd ysgolion yn gallu archwilio sawl gwahanol ffordd o ddefnyddio'r offer yma ac asesu'r defnydd gyda grwpiau a dosbarthiadau o wahanol faint.

Defnyddiwyd ystafell yr Esgob Gore yn wythnosol i ddarparu cwrs dysgu o bell i grŵp bach o fyfyrwyr chweched dosbarth. Mae cynlluniau eraill ysgolion yn cynnwys cysylltiadau â cholegau AB, cyfarfodydd 'cynghorau ysgol' ar y cyd a defnydd ar gyfer cysylltiadau â ieithoedd tramor modern.

Am fod siroedd eraill yng Nghymru'n treialu cynlluniau tebyg, mae trefniadau'n cael eu gwneud i gysylltu ag ysgolion ledled Cymru yn ogystal â rhai o'u hysgolion partner 'cyswllt byd-eang'.

Bwriedir estyn y defnydd o fideo gynadledda i ysgolion cynradd.

Mae Ysgol Gynradd Pontlliw yn awyddus iawn i gyfnerthu ei chysylltiadau ag ysgolion yn yr Almaen, yr Eidal, Sweden, Sbaen a Romania fel rhan o'r prosiect Comenius.

Mae athro o'r ysgol wedi gweithio yn eu hysgol bartner yn Speyer, yr Almaen am sawl wythnos a bellach bydd yn cyflwyno Almaeneg fel iaith dramor fodern ym Mhontlliw. Y gobaith yw y bydd fideo gynadledda'n caniatáu i'r dosbarthiadau ddefnyddio'r iaith yn uniongyrchol gyda'r plant yn Speyer.

Speyer, dinas yn yr Almaen ar y Rhein, tua 25km i'r de o Mannheim.

Adnoddau Cymraeg

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh wedi gweithio'n agos iawn â'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cymraeg ac athrawon dosbarth. O ganlyniad, cynhyrchwyd adnoddau TGCh ar y cyd i gefnogi sawl un o'r cynlluniau a ddarperir gan y Ganolfan Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer Pip, Ben Bwgan Brain a Stabec, yn ogystal â deunyddiau ategol yn fformat Textease. Mae llawer o gydlynwyr ac athrawon Cymraeg yn teimlo bod yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol iawn.

Bwriad y Tîm Cwricwlwm TGCh nawr, mewn cydweithrediad â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Ymgynghorol Cymraeg, yw cynhyrchu deunyddiau iaith i gefnogi'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae prinder amlwg o ddeunyddiau yn y maes yma. Ein nod yw mynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Ymgynghorir â'r ysgolion Cymraeg ynglŷn â'r broses hon. Gwahoddir rhai ysgolion i dreialu'r deunyddiau a gynhyrchir cyn iddynt fod ar gael yn gyffredinol. Yn ystod y cam hwn disgwylir y bydd y wefan Dysgu TGCh yn cael ei defnyddio i storio'r deunyddiau yn ogystal â darparu gwybodaeth berthnasol. Anogir athrawon i gyfrannu deunyddiau hefyd os dymunant. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog diwylliant o rannu arfer da. Darperir diweddariadau mewn cylchlythyrau yn y dyfodol neu ar y wefan Dysgu TGCh.

Mae adnoddau ar-lein ar gael ar hyn o bryd ar safle GCaD Cymru. Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh a'r Gwasanaeth Cymraeg yn argymell y safle hwn.

Geo (pref) – Earth [Greek geō– earth.] – Caching v. – to conceal valuables for safekeeping. [French, from cacher, to hide]

Ydych chi erioed wedi dymuno mynd â'ch dosbarth o amgylch y byd i weld adfeilion cudd, ogofâu dirgel, rhostir agored gwyllt, canol dinasoedd prysur neu i'r trac rheilffordd yn y Dyfnant? Os ydych, mae Geocaching yn addas i chi. Gallwch eistedd wrth eich cyfrifiadur a phrofi safleoedd y byd neu fynd yno eich hun a phrofi'r rhyfeddodau a ddarperir gan Geocaching.

Beth yw Geocaching?

Gêm hela trysor awyr agored yw **Geocaching** lle mae cynwysyddion (a elwir yn "caches") yn cael eu cuddio o amgylch y byd. Ar hyn o bryd, mae **318734** o caches mewn **222** o wledydd gydag **80** cache o fewn **20 cilomedr** o ganol Abertawe. Blychau bach diddos yw caches fel arfer sy'n cynnwys llyfr log a "thrysor", sydd fel arfer yn deganau neu'n eitemau amrywiol gymharol rhad.

Sut mae dod o hyd i cache?

1. Rhestrir cyfesurynnau'r cache, ynghyd â manylion eraill y lleoliad, yn www.geocaching.com.
2. Pan fydd gennych y cyfesurynnau, gallwch ddefnyddio sgiliau map sylfaenol, ynghyd â chliwiau ar y wefan, neu ddefnyddio System Lleoli Byd-eang (sy'n haws o lawer ond yn ddrud) i ddod o hyd i'r cache.
3. Pan fyddwch yn dod o hyd i'r cache mae angen i chi gofnodi eich ymweliad yn y llyfr log ac yna ar-lein.
4. Mae rhyddid i chi fynd â phethau o'r cache yn gyfnewid am adael rhywbeth o werth tebyg neu uwch, fel bod trysor i'r person nesaf ei ddarganfod. Mae rhai caches yn cynnwys Pryfed Teithio.

Beth yw Pryfed Teithio?

Tag y gellir ei ddilyn yw Pryfyn Teithio rydych yn ei gysylltu ag eitem (gweler y llun). Mae hyn yn caniatáu i chi ddilyn yr eitem wrth iddi symud o un cache i'r nesaf. Dilynir Pryfed Teithio gyda chymorth pobl sy'n mynd i'r wefan ac sy'n cofnodi'r symudiadau rhwng caches. Mae gan bob Pryfyn Teithio ei ddyddiadur ei hun sy'n dilyn ei symudiadau o amgylch y byd. Gellir gweld y llwybr a deithiwyd gan y Pryfyn Teithio ar GoogleEarth ac ar fapiau a grëwyd gan y wefan Geocaching. Gall perchennog y pryfyn osod tasg ar gyfer yr eitem sy'n cael ei dilyn. Mae tasgau o'r fath yn cynnwys tynnu llun o'r eitem ger dyfroedd enwog, bod nesaf at anifeiliaid brodorol neu deithio cyn belled â phosib. Mae defnyddio Pryfed Teithio gyda dosbarth yn gyfle gwych i gael gwell gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o'r ardal amgylchynol a'r byd ehangach. Mae'r plant yn methu ag aros i weld ble y bydd eu heitem yn mynd nesaf.

Sut gallaf ddefnyddio Geocaching yn yr ysgol?

Mae Geocaching yn cynnwys amrywiaeth eang o ganlyniadau dysgu ar draws y cwricwlwm TG, Daearyddiaeth, Mathemateg, Cymreig ac Addysg Gorfforol (cyfeiriwch at Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru). Mae Geocaching yn gyfle gwych i ddatrys problemau bywyd go iawn sy'n cynnwys amrywiaeth eang o sgiliau pwnc. Gellir dod o hyd i'r caches gan ddefnyddio'r cyfesurynnau a roddwyd ar y wefan ac yna eu plotio ar fapiau graddfa fawr. Yna gellir dilyn pryfed teithio'n ddaearyddol gan ddefnyddio Google Earth. Mae llawer o ddisgrifiadau'r caches yn cynnwys gwybodaeth ddaearyddol a hanesyddol fanwl am y lleoliad y mae'r cache wedi'i guddio ynddo. Gellir cael yr holl wybodaeth y mae ei hangen drwy ddefnyddio'r wefan yn unig, felly mae angen sgiliau TG da. Ar gyfer plant hŷn, gellir defnyddio GPS wrth addysgu hefyd. Gall fod angen sgiliau awyr agored da i ddod o hyd i'r caches, fel lefel resymol o ffitrwydd ac, ar gyfer y caches mwy eithafol, mae angen profiad o gerdded bryniau.

Ond yn fwyaf oll, mae Geocaching yn hwyl gwych, gwyrdd a glân!

Gan Mark Kelleher
Ysgol Gynradd Hendrefoelan

Y Diweddaraf am Ddysgu TGCh!



Mae'r wefan Dysgu TGCh wedi newid ychydig ac mae'n cynnwys adnoddau ychwanegol y tymor hwn. I gyd-fynd â thymor yr ŵyl, mae rhai addurniadau Nadolig ar y dudalen flaen yn ogystal â bar rholio testun i ddarparu gwybodaeth bwysig i chi! Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh hefyd wedi llunio rhestr o wefannau'r Nadolig yn y rhan Dolenni Cwricwlaidd (http://www.learn-ict.org.uk/links/lnx_xmas.asp).

Mae dolenni uniongyrchol bellach â'r rhan Diogelwch ar y Rhyngrwyd a'r Cynllun Gwaith TGCh a ddiweddarwyd ar y dudalen flaen yn ogystal â dolen â'r wefan sy'n derbyn sylw arbennig, Myths and Legends (http://myths.e2bn.net/index.php).

Mae'r rhestr o ysgolion â'u gwefannau eu hunain mor fawr bellach fel bod tudalen benodol o ddolenni ar eu cyfer (http://www.learn-ict.org.uk/projects/school_websites.asp). Os ydych chi am gynnwys gwefan eich ysgol ar y rhestr, defnyddiwch y ffurflen ar waelod y dudalen honno. Mae dolen hefyd i'ch galluogi i ychwanegu cyfeiriad gwefan eich ysgol at fodd chwilio Google.

Peidiwch ag anghofio yn ogystal â'r cylchlythyr yma sy'n cael ei gyhoeddi ar-lein (http://www.learn-ict.org.uk/materials/newsletters.asp) gallwch hefyd weld cylchlythyrau a gyhoeddwyd gan y timau Rhifedd a ABCh yn http://www.learn-ict.org.uk/materials/ees_newsletters.asp.

Asesu Plant



Rydym yn falch o adrodd bod cardiau hunanasesu plant y Cynllun Gwaith TGCh bellach wedi'u cwblhau ac ar gael ar-lein. Maen nhw ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond mae fersiynau Cymraeg yn cael eu datblygu.

Cyfres o ddatganiadau "Rwy'n gallu" a "Rwy'n gwybod" yw'r cardiau hunanasesu sy'n cefnogi pob uned o'r Cynllun Gwaith TGCh. Ar ôl darllen datganiad, gall y plant benderfynu a ydynt yn hyderus, yn ansicr neu'n methu â chwblhau'r dasg benodol honno. Dangosir hyn trwy ddefnyddio "system goleuadau traffig":

Rwy'n gallu gwneud hyn ar fy mhen fy hun.

Rwy'n gallu gwneud hyn gyda rhywfaint o help.

Mae angen i mi ymarfer hyn mwy.

Mae'r plant yn llusgosod yr wyneb lliw mwyaf addas i'r blychau i gynrychioli eu dealltwriaeth o'r dasg.

Wrth lusgo neu glicio ar bob un o'r wynebau lliw, mae llais cyfeillgar yn darllen y datganiad i'r disgybl. Yna gellir argraffu'r daflen orffenedig.

Dadansoddi Adolygiad y Cwricwlwm



Yn ystod y tymor hwn, mae 96 ysgol wedi manteisio ar ein sesiynau cefnogi ar gyfer adolygu'r cwricwlwm TGCh. Mae dadansoddiad sylfaenol o adolygiadau'r cwricwlwm TGCh uchod. Mae'r bar glas yn nodi'r sgôr fwyaf posib ym mhob un o'r elfennau. Mae'r bar coch yn dangos y sgôr gymedrig (cyfartalog) a gyflawnwyd gan ysgolion Abertawe. Dangosir y sgorau hefyd yn y tabl isod.

Elfen	1	2	3	4	5	6	7	8
Cymedr	14.99	15.14	20.45	6.73	19.28	6.53	20.61	7.36
Cyfanswm	18	18	24	12	24	18	24	10
Safonedig	0.83	0.84	0.85	0.56	0.80	0.36	0.86	0.736

Mae'r ymarfer yma'n darparu rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod angen cefnogaeth ychwanegol gydag Elfen 4 (Asesu) ac Elfen 6 (Estyn Cyfleoedd ar gyfer Dysgu). O gofio hyn, mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh wedi darparu arweiniad helaeth mewn perthynas â'r defnydd o TGCh gartref (cyfeiriwch at: http://www.learn-ict.org.uk/resources/intsafety/index.htm am fanylion pellach). Hefyd, bydd cynllun hunanasesu digidol am ddim ar gyfer disgyblion yn cael ei gyflwyno i gydweithwyr yn ystod Diwrnod Cydlynwyr TGCh Tymor y Gwanwyn ddydd Gwener 9 Chwefror 2007.



Cafwyd adborth cadarnhaol iawn, ar y cyfan, o'r ymarfer hwn. Yn ystod Cyfarfod Cydlynwyr TGCh Tymor yr Hydref, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr a oeddent yn teimlo bod y cyfarfodydd adolygu'r cwricwlwm TGCh yn ddefnyddiol. Dywedodd pawb a atebodd eu bod yn cytuno â'r datganiad, "Roedd y cyfarfodydd adolygu'r cwricwlwm

Cefnogaeth i Ysgolion Ffocws

Dechreuodd y model newydd ar gyfer cefnogi'r cwricwlwm TGCh ym mis Medi 2006. Am fanylion pellach, cyfeiriwch at y ddogfen ar-lein (Adrannau 8 a 10 yn benodol) yn:
Fersiwn Gymraeg: http://www.learn-ict.org.uk/materials/documents/curr_sup_mod_cy.doc
Fersiwn Saesneg: http://www.learn-ict.org.uk/materials/documents/curr_sup_mod.doc

Dewiswyd yr ysgolion canlynol i dderbyn cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y cwricwlwm TGCh:

Cynradd: YG Arfryn, YG Gellifedw, YG Blaenymaes, YG Brynmill, YG Craigcefnparc, YG Craigfelen, YG y Cwm, YG Cwmbwrla, YG y Dyfnant, YG y Glais, YG Glyncollen, YI Gorseinon, YG Penllergaer, YG Pentrechwyth, YF Pentrepoeth, YG Penyrheol, YG Pontarddulais, YG Pontlliw, YGG Felindre ac YGG Lôn-las

Arbennig: Ysgol Crug Glas

Uwchradd: Gellifedw, Dylan Thomas a'r Olchfa

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Lindsay Harvey ar 01792 562669, 07966515364 neu lindsay.harvey@swansea-edunet.gov.uk.

Hoffai'r Tîm Cwricwlwm TGCh ddymuno
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n hysgolion!